

**Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer
23 Mawrth, 2015**

Presennol: Linda Morris (Cadeirydd), John Morris, Gwyn Roberts, Tyly Roberts, Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd a derbyniwyd ymddiheuriadau Eleri Jones, Emyr Jones ac W D Williams.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau buddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Ionawr 19, 2015.
5. Nid oedd materion yn codi o'r Cofnodion nad oedd eisoes ar yr Agenda.
6. Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Sir a soniodd yn fanwl am ymdrechion Cyngor Gwynedd i wneud arbedion i gyfarfod gyda'r lleihad sylweddol eleni eto yn y setliad o Lywodraeth Cymru. Mae'r camau yn cynnwys uno nifer o brif adrannau, ac ail-gymhwyso gweithlu pan ddaw swyddi'n wag yn ogystal â defnyddio rhywfaint o'r balansau. Er hynny, roedd yn anorfod fod i Treth y Cyngor yn codi rhywfaint.

7. Materion ariannol

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol bresennol.
 - ii. Cytunwyd i dalu anfonebau:
 - a. Gwefan
 - b. Aelodaeth Un Llais Cymru
 - c. Ffi'r Archwiliwr
 - d. Cyflog y Clerc am 2014-15
 - iii. Ystyriwyd ceisiadau am gefnogaeth ariannol a chytunwyd i ddyrannu
 - a. Neuadd Llangywer £550
 - b. Cwmni Pum Plwy Penllyn cyf – elfen Lles £136.50
 - c. Eisteddfod Gylch Penllyn £50
 - d. Clybiau Ffermwyr Ieuan Meirionnydd £50
8. **Cynnal y fynwent:** derbyniwyd yn ddiolchgar gynnig Mr Maldwyn Morris i wneud gwaith gwerth £800 yn y fynwent eleni. Cytunwyd mewn egwyddor i ddilyn trefn Cyngor Cymuned Llanuwchllyn o ran ffioedd claddu.
9. **Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned** –roedd pryder parthed coed yn disgyn i'r ffordd, yn arbennig ar wynt mawr, i gyfeiriad Maes Meillion yng Nglyn Bach. Cytunodd y Cynghorydd Alan Jones Evans i ddwyn sylw'r adran berthnasol o Gyfoeth Naturiol Cymru.

10. Partneriaeth Penllyn:

- a. derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr, a soniwyd am yr Henblas a chyfarfod diweddar ar gais Cyngorwyr o Bowys.
- b. derbyniwyd copi o'r cytundeb gyda Chyngor Gwynedd,
- c. derbyniwyd adroddiad o gyfarfod gyda Dyfed Edwards parthed yr ail-drefnu o Gyngorau Sir a Chymuned sydd ar y gorwel. Barn aelodau Cyngor Cymuned Llangywer oedd bod yr ail-drefnu yn rhwym o ddigwydd ac mae doeth fyddai i ardal Penllyn fanteisio os yn bosib ar y cyfle i siapio ein dyfodol ein hunain trwy ymuno a chynllun peilot ymlaen llaw.

11. Gohebiaeth:

Parc Cenedlaethol Eryri:

Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd wedi ei roi i

(a)NP5/70/L106C – estyniad i Beudy Isaf Rhosygwaliau;

(b)NP5/70/123C am godi garej newydd yn Garth Lwyd, Rhosygwaliau

Cymeradwywyd ceisiadau:

NP5/70/74C - dymchwel penty cefn s chodi penty newydd i gefn y beudy presennol ym Maeshir, Rhosygwaliau

C15/0140/06/LL - Codi adeilad amaethyddol i gadw anifeiliaid, Tŷ'n Dail, Rhosygwalia

C15/00067/04/LL Gwahoddiad i roi sylwadau ar y cais i godi tyrbîn gwynt (48m), Coed y Foel, Frongoch – roedd y Cyngorwyr yn bleidiol i'r cais hwn.

Gwynedd:

Gynllun Datblygu ar y cyd Gwynedd a Môn: nodwyd derbyn gwybodaeth

Ad-drefnu ysgolion ym Mhenllyn: Derbyniwyd gwahoddiad i ymateb i'r ymgynghoriad am yr ysgol gydol oes a chyfarwyddwyd y Clerc i ysgrifennu i fynegi cefnogaeth y Cyngor i'r cynllun hwn.

Arall:

Datblygiad Rheilffordd Llyn Tegid Derbyniwyd gwahoddiad gan Gyngor Cymuned Llanuwchllyn i ymuno gyda nhw yn eu cyfarfod nesaf, nos Fawrth 14/4/15 am 7.30 yn y Neuadd Bentref yn Llanuwchllyn pryd y bydd Mr Julian Birley yn rhoi cyflwyniad.

12. Dyddiad y Cyfarfod nesaf: 11/5/15

Amser gorffen: 9.15pm